



Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

2024 dsc 2

Nodiadau Esboniadol

The Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024

2024 asc 2

Explanatory Notes

£13.57



Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

2024 dsc 2

Nodiadau Esboniadol

The Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024

2024 asc 2

Explanatory Notes

DEDDF YR AMGYLCHEDD (ANSAWDD AER A SEINWEDDAU) (CYMRU) 2024

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 28 Tachwedd 2023 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Chwefror 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

CRYNODEB A'R CEFNDIR

2. Nod y Ddeddf yw gwella ansawdd ein hamgylchedd aer a lleihau effeithiau llygredd yn yr awyr ar iechyd pobl, byd natur, yr amgylchedd a'n heconomi.
3. Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith i Weinidogion Cymru i osod targedau mewn perthynas ag ansawdd aer yng Nghymru ac yn diwygio deddfwriaeth ansawdd aer sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â rheoli ansawdd aer yn lleol, codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, atal segura llonydd a rheoli mwg. Mae'r Ddeddf yn creu dyletswyddau newydd i Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer a ffyrdd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod y ddyletswydd hon, drwy reoliadau, ar awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â sŵn a seinweddau, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion lunio strategaeth seinweddau genedlaethol.
4. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 31 o adrannau a dwy Atodlen.

SYLWEBEAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1 - Ansawdd aer

Pennod 1 - Targedau cenedlaethol

5. Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith penodol i osod, adolygu ac adrodd ar dargedau ansawdd aer cenedlaethol i Gymru, a fydd yn gymwys yn ychwanegol at ddeddfwriaeth arall yn y maes hwn. Bydd y targedau newydd yn darparu dull penodol o gyflawni canlyniadau hirdymor ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i osod targed mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o PM_{2.5} mewn aer amgylchynol yng Nghymru ac i osod targed hirdymor pellach.

THE ENVIRONMENT (AIR QUALITY AND SOUNDSCAPES) (WALES) ACT 2024

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024 which was passed by Senedd Cymru on 28 November 2023 and received Royal Assent on 14 February 2024. They have been prepared by the Climate Change and Rural Affairs Group of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

SUMMARY AND BACKGROUND

2. The aim of the Act is to improve the quality of our air environment and reduce the impacts of airborne pollution on human health, nature, the environment and our economy.
3. The Act creates a framework for the Welsh Ministers to set targets in relation to air quality in Wales and amends existing air quality legislation in relation to local air quality management, road user charging, anti-idling and smoke control. The Act creates new duties for the Welsh Ministers to take steps to promote awareness of the risks to human health and the natural environment caused by air pollution and ways of reducing or limiting air pollution. The Act also places Welsh Ministers and local authorities under a duty to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution and makes provision for this duty to be imposed, by regulations, on other public authorities. The Act also includes provisions related to noise and soundscapes, requiring Ministers to produce a national strategy on soundscapes.
4. The Act comprises 31 sections and two Schedules.

COMMENTARY ON SECTIONS

Part 1 – Air quality

Chapter 1 – National targets

5. This Chapter makes provision for a specific framework for setting, reviewing and reporting on national air quality targets for Wales, which will apply in addition to other legislation in this area. The new targets will provide a specific mechanism to deliver long-term outcomes and places a duty on Welsh Ministers to make regulations to set a target in respect of the annual mean level of PM_{2.5} in ambient air in Wales and to set a further long-term target.

Adran 1 – Targedau ansawdd aer: cyffredinol

6. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru.
7. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer y pŵer yn is-adran (1) i osod targed hirdymor ar gyfer un o'r llygryddion canlynol: amonia; PM₁₀ (a ddiffinnir yn is-adran (8)), osôn ar lefel y ddaear, nitrogen deuocsid, carbon monocsid neu sylffwr deuocsid.
8. Rhaid i unrhyw darged a osodir o dan y rheoliadau hyn, o dan is-adran (3), bennu safon i'w chyflawni a dyddiad erbyn pryd y mae'r safon honno i'w chyflawni. Mae is-adran (8) yn esbonio y cyfeirir at y rhain fel y "safon benodedig" a'r "dyddiad penodedig" ym Mhennod 1 o'r Ddeddf (ac mae i'r cyfeiriadau hyn yr un ystyr yn y Nodiadau Esboniadol hyn).
9. Gallai safon gael ei phennu, er enghraifft, mewn perthynas â chrynodeiad o lygrydd aer sy'n cael effeithiau niweidiol ar iechyd y cyhoedd, ecosystemau a bioamrywiaeth.
10. Rhaid gallu mesur y safon benodedig yn wrthrychol ac felly bydd angen i'r broses o osod targedau ystyried hyn. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn y rheoliadau ynghylch sut y mae mesur y mater y gosodir y targed mewn cysylltiad ag ef. Bydd angen i'r dull o fesur y mater fod yn glir ac yn un y gellir ei gynnal dro ar ôl tro.
11. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n gosod y targed sy'n ofynnol o dan is-adran (2) bennu bod y targed wedi ei osod i gydymffurfio â'r is-adran honno.
12. Mae is-adran (6) yn darparu bod targed yn "targed hirdymor" os yw'r dyddiad penodedig ar gyfer y targed hwnnw o leiaf 10 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed. Mae is-adran (7) yn esbonio bod targed wedi ei osod pan ddaw'r rheoliadau sy'n ei osod i rym.

Adran 2 – Targedau ansawdd aer: deunydd gronynnol

13. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed, mewn rheoliadau, mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o PM_{2.5} mewn aer amgylchynol yng Nghymru. Cyfeirir at y targed hwn fel "targed ansawdd aer PM_{2.5}" yn yr adran hon ac ym Mhennod 1 o'r Ddeddf (ac mae i'r cyfeiriad hwn yr un ystyr yn y Nodiadau Esboniadol hyn).
14. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff targed ansawdd aer PM_{2.5} fod yn darged hirdymor ond nid oes rhaid iddo fod felly.
15. Mae is-adran (3) yn diffinio PM_{2.5} fel deunydd gronynnol sydd â diamedr aerodynamig nad yw'n fwy na 2.5 o ficromedrau. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod "aer amgylchynol" wedi ei ddiffinio at ddiben pob targed PM_{2.5} ac y caiff rheoliadau o dan adran 2 gynnwys diffiniadau gwahanol ar gyfer targedau gwahanol.

Section 1 – Air quality targets: general

6. Subsection (1) gives the Welsh Ministers a power to make regulations that set long-term targets in respect of any matter relating to air quality in Wales.
7. Subsection (2) places a duty on the Welsh Ministers to exercise the power in subsection (1) to set a long-term target for one of the following pollutants: ammonia, PM₁₀ (defined in subsection (8)), ground level ozone, nitrogen dioxide, carbon monoxide or sulphur dioxide.
8. Any target set under these regulations must, under subsection (3), specify a standard to be achieved and a date by which that standard is to be achieved. Subsection (8) explains that these are referred to as the “specified standard” and “specified date” in Chapter 1 of the Act (and these references have the same meaning within these Explanatory Notes).
9. A standard might be specified, for example, in relation to a concentration of an air pollutant with harmful effects on public health, ecosystems and biodiversity.
10. The specified standard must be capable of being objectively measured and so the process of setting targets will need to take this into account. Subsection (4) enables the Welsh Ministers to make provision within the regulations about how the matter in respect of which the target is set is to be measured. The method of measurement will need to be clear and repeatable.
11. Subsection (5) provides that regulations setting the target required by subsection (2) must specify that the target is set to comply with that subsection.
12. Subsection (6) provides that a target is a “long-term target” if the specified date for that target is at least 10 years after the date on which the target is set. Subsection (7) explains that a target is set when the regulations setting it come into force.

Section 2 – Air quality targets: particulate matter

13. This section imposes a duty on Welsh Ministers to set at least one target, in regulations, in respect of the annual mean level of PM_{2.5} in ambient air in Wales. This is referred to as a “PM_{2.5} air quality target” in this section and Chapter 1 of the Act (and this reference has the same meaning within these Explanatory Notes).
14. Subsection (2) provides that a PM_{2.5} air quality target may be a long-term target, but it does not have to be.
15. Subsection (3) defines PM_{2.5} as particulate matter with an aerodynamic diameter not exceeding 2.5 micrometres. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers must ensure that “ambient air” is defined for the purpose of each PM_{2.5} target and that regulations under section 2 may contain different definitions for different targets.

16. Mae is-adran (5) yn cymhwyso is-adrannau (3) i (4) a (6) i (8) o adran 1 i reoliadau a wneir o dan yr adran hon: gweler uchod am esboniad o effaith y darpariaethau hyn. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod rhaid i reoliadau sy'n gosod targed ansawdd aer PM_{2.5} bennu'r safon i'w chyflawni (y mae rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol) a rhaid iddynt bennu dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.

Adran 3 – Y broses o osod targedau

17. Mae'r adran hon yn nodi'r broses y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn gosod, diwygio neu ddirymu targed ansawdd aer hirdymor o dan adran 1 a chyn gosod neu ddiwygio targed ansawdd aer PM_{2.5} o dan adran 2. Ni all targed a osodir i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 1(2) na tharged ansawdd aer PM_{2.5} gael ei ddirymu gan reoliadau a wneir o dan adran 1 neu 2 yn y drefn honno (gweler is-adrannau (7) ac (8)).
18. Yn unol ag is-adran (1), cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau 1 neu 2 rhaid i Weinidogion Cymru: (a) ceisio cyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol; a (b) rhoi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiau llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd y dadansoddiadau economaidd, technegol a chymdeithasol, a dichonolrwydd cyflawni targedau.
19. O dan is-adran (2) cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod neu'n diwygio targed mewn cysylltiad â llygrydd penodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ganllawiau ar gyfer y llygrydd hwnnw a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ganllawiau ansawdd aer byd-eang diweddaraf.
20. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau y maent wedi eu bodloni y gellir eu cyflawni. Mae hyn yn gymwys i darged neu dargedau a osodir y tro cyntaf yr arferir y pwerau o dan adrannau 1 a 2 ac i unrhyw dargedau diwygiedig a osodir gan ddefnyddio'r pwerau hynny. Mae is-adran (9) yn darparu bod targed wedi ei gyflawni os yw'r safon benodedig wedi ei chyrraedd erbyn y dyddiad penodedig.
21. Mae is-adrannau (4) i (8) yn nodi'r broses y mae rhaid ei dilyn er mwyn dirymu neu ostwng targed a osodwyd o dan adran 1 neu 2. Mae is-adran (6) yn esbonio bod targed wedi ei ostwng os yw'n gosod safon is yn lle'r safon benodedig neu'n pennu dyddiad diweddarach yn lle'r dyddiad penodedig.
22. Yn unol ag is-adran (4), ni chaiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu ostwng targed presennol onid ydynt wedi eu bodloni (a) na fyddai cyflawni'r targed presennol o unrhyw fudd sylweddol o gymharu â pheidio â chyflawni'r targed neu gyflawni targed is, neu (b) yn sgil newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol neu ei ddiwygio ddiwethaf y byddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyflawni'r targed yn anghymesur â'r buddion.

16. Subsection (5) applies subsections (3) to (4) and (6) to (8) of section 1 to regulations made under this section: see above for an explanation of the effect of these provisions. This means, for example, that regulations setting a PM_{2.5} air quality target must specify the standard to be achieved (which must be capable of being objectively measured) and must specify a date by which that standard is to be achieved.

Section 3 – Target-setting process

17. This section sets out the process that the Welsh Ministers must follow before setting, amending or revoking a long-term air quality target under section 1 and before setting or amending a PM_{2.5} air quality target under section 2. Neither a target set to comply with the duty in section 1(2) nor a PM_{2.5} air quality target can be revoked by regulations made under section 1 or 2 respectively (see subsections (7) and (8)).
18. Pursuant to subsection (1), before making regulations under sections 1 or 2 the Welsh Ministers must: (a) seek advice from persons they consider to be independent and have relevant expertise; and (b) have regard to scientific knowledge on air pollution. This could include, for example, international evidence on the health and environmental effects of air pollution and the economic, technical and social analyses, and the feasibility of meeting targets.
19. Under subsection (2), before making regulations that set or amend a target in respect of a particular pollutant, the Welsh Ministers must have regard to any guidelines for that pollutant published by the World Health Organisation in its most recent global air quality guidelines.
20. Subsection (3) requires the Welsh Ministers to set targets they are satisfied can be met. This applies to a target or targets set under the first exercise of the powers under sections 1 and 2 and to any amended targets that are set using those powers. Subsection (9) provides that a target is met if the specified standard is achieved by the specified date.
21. Subsections (4) to (8) set out the process that must be followed in order to revoke or lower a target that has been set under section 1 or 2. Subsection (6) explains that a target is lowered if it replaces the specified standard with a lower standard or replaces the specified date with a later date.
22. Pursuant to subsection (4), the Welsh Ministers can only revoke or lower an existing target if they are satisfied that (a) meeting the existing target would have no significant benefit compared with not meeting it or meeting a lower target; or (b) because of changes in circumstances since the existing target was set or last amended the environmental, social, economic, or other costs of meeting it would be disproportionate to the benefits.

23. Mae'n bosibl na fydd unrhyw fudd sylweddol i gyflawni targed. Er enghraifft, os y rhagwelwyd y byddai cyflawni'r targed o fudd i iechyd, a bod tystiolaeth wyddonol newydd bellach wedi dangos y gellir cyflawni'r un budd o ran iechyd drwy gyflawni targed diwygiedig neu darged hollol newydd. Fel arall, gall y dystiolaeth wyddonol newydd ddangos nad yw'r budd a ragwelwyd o ran iechyd yn ddisgwyliedig mwyach.
24. Gall newid mewn amgylchiadau ddigwydd, er enghraifft, am fod gostyngiadau nas rhagwelwyd mewn uchelgeisiau lleihau allyriadau rhyngwladol, a ragdybiwyd wrth osod y targedau, yn effeithio ar lefelau llygryddion yng Nghymru. Gall hyn arwain at leihau'n sylweddol allu camau a gymerir yng Nghymru i gyflawni targed, neu gynyddu'r costau cysylltiedig mewn modd anghymesur.
25. Cyn gostwng neu ddirymu targed, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru ddatganiad sy'n esbonio pam y maent wedi eu bodloni bod o leiaf un o'r seiliau yn is-adran (4) wedi ei fodloni.
26. Mae is-adran (10) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod offeryn statudol drafft sy'n cynnwys y rheoliadau sy'n ofynnol gan adran 1(2) gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 6 mlynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
27. Mae is-adran (11) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod offeryn statudol drafft sy'n cynnwys rheoliadau sy'n gosod targed PM_{2.5} gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

Adran 4 - Effaith targedau

28. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau hirdymor a osodir o dan adran 1 a'r targedau ansawdd aer PM_{2.5} a osodir o dan adran 2 yn cael eu cyflawni.
29. Mae is-adran (2) yn egluro nad oes dim ym Mhennod 1 o'r Ddeddf, ac eithrio adran 8, yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i wneud rheoliadau i asesu neu reoli ansawdd aer.

Adran 5 - Adrodd ar dargedau

30. Mae adran 5 yn nodi'r dyletswyddau adrodd a osodir ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â thargedau hirdymor a osodir o dan adran 1 a thargedau ansawdd aer PM_{2.5} a osodir o dan adran 2.

23. Meeting a target may have no significant benefit. For example, if meeting it was anticipated to generate a health benefit, and new scientific evidence has now demonstrated that the same health benefit is achievable through meeting a revised or entirely new target. Alternatively, the new scientific evidence may demonstrate that the anticipated health benefit is no longer expected.
24. A change in circumstances may, for example, occur as a result of unforeseen reductions in international emission reduction ambitions, assumed when the targets were set, affecting pollutant levels in Wales. This may significantly reduce the ability of actions taken in Wales to achieve a target, or disproportionately increase the associated costs.
25. Subsection (5) requires that before lowering or revoking a target, the Welsh Ministers must publish and lay before Senedd Cymru a statement that explains why they are satisfied that at least one of the grounds in subsection (4) has been met.
26. Subsection (10) requires the Welsh Ministers to lay a draft statutory instrument containing the regulations required by section 1(2) before Senedd Cymru before the end of the period of 6 years beginning with the date on which this Act receives Royal Assent.
27. Subsection (11) requires the Welsh Ministers to lay a draft statutory instrument containing regulations setting a PM_{2.5} target before Senedd Cymru before the end of the period of 3 years beginning with the date on which this Act receives Royal Assent.

Section 4 - Effect of targets

28. Subsection (1) places the Welsh Ministers under a duty to ensure long term targets set under section 1 and the PM_{2.5} air quality targets set under section 2 are met.
29. Subsection (2) clarifies that nothing in Chapter 1 of the Act, except section 8, limits the Welsh Ministers' power under section 87 of the Environment Act 1995 to make regulations for the assessment or management of air quality.

Section 5 - Reporting on targets

30. Section 5 sets out the reporting duties that are placed on Welsh Ministers in relation to long-term targets set under section 1 and PM_{2.5} air quality targets set under section 2.

31. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 bennu dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir o dan y rheoliadau hynny. Ar y dyddiad adrodd ar gyfer pob targed neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru osod un o blith tri datganiad gerbron Senedd Cymru (a chyhoeddi'r datganiad hwnnw):
- a) Datganiad, o dan adran 5(3)(a), fod y targed wedi ei gyflawni.
 - b) Datganiad, o dan adran 5(3)(b), nad yw'r targed wedi ei gyflawni. O fewn 12 mis i osod y datganiad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, o dan is-adrannau (4) a (5), osod adroddiad gerbron Senedd Cymru yn esbonio pam na chafodd y targed ei gyflawni a pha gamau y maent wedi eu cymryd, neu pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau y cyflawnir y safon benodedig o dan y targed hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi'r adroddiad hwn.
 - c) Datganiad, o dan adran 5(3)(c), nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu canfod pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni. Rhaid i'r datganiad hwn hefyd esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi gallu canfod hyn a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn gallu gwneud hynny. O fewn 6 mis i osod y datganiad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, o dan is-adran (6), osod datganiad pellach gerbron Senedd Cymru yn cadarnhau pa un a yw targed wedi ei gyflawni neu'n cadarnhau nad ydynt yn gallu canfod pa un a yw wedi ei gyflawni. Mae is-adrannau (3) i (6) yn gymwys i unrhyw ddatganiad pellach yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i ddatganiad a wneir o dan is-adran (2). Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi'r datganiad pellach hwnnw.

Adran 6 – Adolygu targedau

32. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu targedau a osodir o dan adrannau 1 a 2.
33. O dan is-adran (2), wrth gynnal adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiau llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd y dadansoddiadau economaidd, technegol a chymdeithasol, a dichonolrwydd cyflawni targedau.
34. O dan is-adran (3), wrth gynnal adolygiad o darged mewn cysylltiad â llygrydd y mae canllawiau wedi eu cyhoeddi ar ei gyfer gan Sefydliad Iechyd y Byd yn ei ganllawiau ansawdd aer byd-eang diweddaraf, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r canllawiau mewn cysylltiad â'r llygrydd hwnnw.
35. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl iddynt gynnal yr adolygiad, gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru ddatganiad ynghylch y camau, os oes rhai, y maent yn bwriadu eu cymryd o dan adran 1 neu adran 2 mewn perthynas â phob targed o ganlyniad i'r adolygiad.
36. Mae is-adran (5) yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad ydynt am gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â tharged, fod rhaid i'r datganiad gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

31. Subsection (1) provides that regulations under sections 1 and 2 must set a reporting date for any target that is set under those regulations. On or before the reporting date for each target, the Welsh Ministers must lay one of three statements before Senedd Cymru (and publish that statement):
- a) A statement, under section 5(3)(a), that the target has been met.
 - b) A statement, under section 5(3)(b), that the target has not been met. Within 12 months of laying this statement, the Welsh Ministers must, under subsections (4) and (5), lay a report before Senedd Cymru explaining why the target was not met and what steps they have taken, or intend to take to make sure that the specified standard under that target is achieved as soon as reasonably practicable. The Welsh Ministers must also publish this report.
 - c) A statement, under section 5(3)(c), that the Welsh Ministers cannot determine whether the target has been met. This statement must also explain why the Welsh Ministers have not been able to make this determination and the steps they intend to take in order to be able to do so. Within 6 months of laying this statement, the Welsh Ministers must, under subsection (6), lay a further statement before Senedd Cymru confirming whether or not a target has been met or that they cannot determine whether it has been met. Subsections (3) to (6) apply to any further statement in the same way as they apply to a statement made under subsection (2). The Welsh Ministers must also publish the further statement.

Section 6 - Review of targets

32. Subsection (1) places a duty on the Welsh Ministers to review targets set under sections 1 and 2.
33. Under subsection (2), when undertaking a review, the Welsh Ministers must seek advice from persons they consider to be independent and to have relevant expertise. They must also have regard to scientific knowledge about air pollution. This could include, for example, international evidence on the health and environmental effects of air pollution and the economic, technical and social analyses, and the feasibility of meeting targets.
34. Under subsection (3), in carrying out a review of a target in respect of a pollutant for which guidelines have been published by the World Health Organisation in its most recent global air quality guidelines, the Welsh Ministers must have regard to the guidelines in respect of that pollutant.
35. Subsection (4) requires the Welsh Ministers, once they have carried out the review, to publish and lay before Senedd Cymru a statement about the steps, if any, they intend to take under section 1 or section 2 in relation to each target as a result of the review.
36. Subsection (5) provides that where the Welsh Ministers determine that no steps will be taken in relation to a target, the statement must include the reasons for that decision.

37. Mae is-adrannau (6) a (7) yn nodi pa bryd y mae rhaid adolygu'r targedau a osodir o dan adrannau 1 a 2. Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o fewn cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodir y targed cyntaf. Rhaid cwblhau adolygiadau dilynol o fewn 5 mlynedd i'r diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad blaenorol.
38. Mae is-adran (8) yn egluro bod adolygiad wedi'i gwblhau pan fo Gweinidogion Cymru wedi gosod y datganiad y cyfeirir ato yn is-adran (4) gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gyhoeddi.

Adran 7 – Monitro hynt cyflawni targedau

39. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu cael gafael ar ddata ynghylch ansawdd aer yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod yn briodol i fonitro hynt cyflawni unrhyw dargedau a osodir o dan adran 1 neu 2.
40. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddata a geir o dan is-adran (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adran 8 – Cynnal safonau ansawdd aer

41. Mae adran 87(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) (y cyfeirir ati fel "Deddf 1995" yn y Nodiadau Esboniadol hyn) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag asesu neu reoli ansawdd aer.
42. Mae adran 8 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r pŵer hwn gael ei arfer pan fo'r dyddiad penodedig ar gyfer targed a osodir o dan adran 1 neu 2 o'r Ddeddf hon wedi ei gyrraedd a bod y safon benodedig ar gyfer y targed wedi ei chyflawni (boed erbyn y dyddiad penodedig neu erbyn dyddiad diweddarach).
43. Mae adran 8(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan yr amgylchiadau hyn, arfer eu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 87(1) o Ddeddf 1995 i sicrhau eu bod o dan ddyletswydd i gynnal y safon a gyflawnwyd a'i bod yn ofynnol iddynt adrodd ar gydymffurfedd â'r ddyletswydd honno.
44. O dan adran 8(3), gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 87(1) o Ddeddf 1995 i ostwng y safon y mae rhaid ei chynnal, neu i ddirymu'r safon honno. Fodd bynnag, dim ond os ydynt wedi eu bodloni bod un o'r amodau yn adran 8(3)(a) neu (b) wedi ei fodloni y gallant wneud hynny.
45. Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 87(1) o Ddeddf 1995 i ostwng y safon y mae rhaid ei chynnal, neu i ddirymu'r safon honno, rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r gofynion yn adran 8(4)(a) i (d). Mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at y gofyniad i ymgynghori o dan adran 87(7B) o Ddeddf 1995.

Adran 9 – Adrodd mewn perthynas ag adran 1

46. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, osod gerbron y Senedd a chyhoeddi adroddiad ar yr ystyriaeth y maent wedi ei rhoi yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw i osod targedau hirdymor o dan adran 1.

37. Subsections (6) and (7) set out when the targets set under sections 1 and 2 must be reviewed. The first review must be completed within 5 years beginning with the day on which the first target is set. Subsequent reviews must be completed within 5 years of the day on which the previous review was completed.
38. Subsection (8) clarifies that a review is completed when the Welsh Ministers have laid the statement referred to in subsection (4) before Senedd Cymru and published it.

Section 7 - Monitoring progress towards meeting targets

39. Subsection (1) requires the Welsh Ministers to make arrangements for obtaining such data about air quality in Wales as they consider appropriate for the purpose of monitoring progress being made towards meeting any of the targets set under section 1 or 2.
40. Subsection (2) requires the Welsh Ministers to publish any data that is obtained under subsection (1) as soon as is reasonably practicable.

Section 8 - Maintaining air quality standards

41. Section 87(1) of the Environment Act 1995 (c. 25) (referred to as “the 1995 Act” in these Explanatory Notes) gives the Welsh Ministers a power to make regulations with respect to the assessment or management of the quality of air.
42. Section 8 of the Act requires this power to be exercised when the specified date for a target set under section 1 or 2 of this Act has been reached and the specified standard for the target has been achieved (whether by the specified date or by a later date).
43. Section 8(2) requires the Welsh Ministers, in these circumstances, to exercise their regulation-making power under section 87(1) of the 1995 Act to ensure that they are placed under a duty to maintain the standard that has been achieved and that they are required to report on compliance with that duty.
44. Under section 8(3), the Welsh Ministers can use their regulation-making powers under section 87(1) of the 1995 Act to lower the standard that must be maintained, or to revoke that standard. However, they can only do so if they are satisfied that one of the conditions in section 8(3)(a) or (b) is met.
45. Before making regulations under section 87(1) of the 1995 Act to lower the standard that must be maintained, or to revoke that standard, the Welsh Ministers must comply with the requirements in section 8(4)(a) to (d). These requirements are in addition to the consultation requirement under section 87(7B) of the 1995 Act.

Section 9 - Reporting in relation to section 1

46. Section 9 requires the Welsh Ministers, as soon as practicable after the end of each reporting period, to publish and lay before the Senedd a report on the consideration they have given during that reporting period to setting long-term targets under section 1.

47. Mae is-adran (4) yn esbonio mai'r cyfnodau adrodd yw'r cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 1 yn dod i rym a phob cyfnod dilynol o 12 mis.
48. Mae is-adran (2) yn rhestru'r llygryddion y mae rhaid i'r adroddiad ymdrin â hwy yn benodol, sef (a) amonia, (b) PM₁₀ (fel y'i diffinnir yn adran 1(8)), (c) osôn ar lefel y ddaear, (d) nitrogen deuocsid; (e) carbon monocsid ac (f) sylffwr deuocsid.
49. Mae is-adran (3) yn darparu nad oes rhaid i'r adroddiad ymdrin â llygrydd os yw rheoliadau wedi eu gwneud o dan adran 1 mewn perthynas â'r llygrydd hwnnw.

Pennod 2 - Darpariaeth arall

Hybu ymwybyddiaeth

Adran 10 - Hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer

50. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer yn ogystal â ffyrdd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno.
51. Ymhlith yr enghreifftiau posibl o'r ffyrdd y gallai Gweinidogion Cymru gyflawni eu dyletswydd mae drwy annog, cefnogi a hybu mentrau llygredd aer lleol, neu drwy wella'r broses o ddarparu adnoddau llygredd aer ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ac adolygu'r wybodaeth gyfredol ynghylch ffynonellau llygredd aer a'r effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, gan ystyried hygyrchedd a gofynion grwpiau gwahanol.

Hyrwyddo teithio llesol

Adran 11 - Hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno

52. Mae'r adran hon yn mewnosod tair adran newydd, 10A, 10B a 10C, yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (dccc 7) i greu dyletswyddau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn cyfeirio at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 fel "Deddf 2013".
53. Mae adran newydd 10A o Ddeddf 2013 yn nodi dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hyrwyddo teithio llesol. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno yng Nghymru.
54. Mae is-adrannau (2) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ynghylch y camau y maent yn cynnig eu cymryd o ran cyflawni eu dyletswydd o dan is-adran (1) cyn gynted â phosibl ar ôl i adran 10A ddod i rym a pharhau i adolygu'r datganiad.
55. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r datganiad ar unrhyw adeg a bod rhaid iddynt gyhoeddi'r datganiad ar ei ffurf ddiwygiedig.

47. Subsection (4) explains that the reporting periods are the period of two years beginning with the day on which section 1 comes into force and each subsequent period of 12 months.
48. Subsection (2) lists the pollutants that the report must, in particular, address. These are (a) ammonia, (b) PM₁₀ (as defined in section 1(8)), (c) ground level ozone, (d) nitrogen dioxide, (e) carbon monoxide and (f) sulphur dioxide.
49. Subsection (3) provides that the report does not have to address a pollutant if regulations have been made under section 1 in relation to that pollutant.

Chapter 2 - Other provision

Promoting awareness

Section 10 - Promoting awareness about air pollution

50. This section places a duty on the Welsh Ministers to take steps to promote awareness in Wales of the risks to human health and the natural environment caused by air pollution and ways of reducing or limiting air pollution.
51. Examples of ways in which the Welsh Ministers might discharge their duty might include: by encouraging, supporting and promoting local initiatives about air pollution; or by improving the provision of air pollution resources for health professionals and reviewing current information on the sources of air pollution and the health and environmental impacts, taking into account accessibility and requirements of different groups.

Promoting active travel

Section 11 - Promoting active travel as a way of reducing or limiting air pollution

52. This section inserts three new sections, 10A, 10B and 10C, into the Active Travel (Wales) Act 2013 (anaw. 7) to create duties for the Welsh Ministers and local authorities to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution. These Explanatory Notes refer to the Active Travel (Wales) Act 2013 as “the 2013 Act”.
53. New section 10A of the 2013 Act sets out the Welsh Ministers’ duties in relation to promoting active travel. Subsection (1) places a duty on the Welsh Ministers to take steps to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution in Wales.
54. Subsections (2) and (3) require the Welsh Ministers to publish a statement about the steps they propose to take in the performance of their duty under subsection (1) as soon as possible after the coming into force of section 10A and to keep the statement under review.
55. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers may revise the statement at any time and must publish the statement in its revised form.

56. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd (fel y'i diffinnir yn is-adran (6)) sy'n pennu'r camau y maent wedi eu cymryd o ran cyflawni eu dyletswydd o dan is-adran (1). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyhoeddi adroddiadau ychwanegol (gweler is-adran (7)).
57. Mae is-adran (6) yn egluro mai'r "cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 10A yn dod i rym a phob cyfnod dilynol o 3 blynedd.
58. Mae adran newydd 10B o Ddeddf 2013 yn darparu ar gyfer hyrwyddo teithio llesol gan awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno.
59. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno yn eu hardaloedd.
60. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo awdurdod lleol yn cyflwyno map rhwydwaith integredig i Weinidogion Cymru o dan adran 4(9)(c) o Ddeddf 2013, fod rhaid iddo hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n pennu'r camau y mae wedi eu cymryd o ran cyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) yn ystod y cyfnod sy'n dechrau pan fydd is-adran (1) yn dod i rym ac sy'n dod i ben pan gyflwynir y map neu, yn achos adroddiadau dilynol, y cyfnod ers iddo gyhoeddi adroddiad o dan yr is-adran hon ddiwethaf.
61. Mae is-adran (3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod y dyletswyddau i gymryd camau i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno a chyhoeddi adroddiadau ar y camau a gymerwyd ar unrhyw awdurdod cyhoeddus a bennir yn y rheoliadau.
62. Mae is-adran (4) yn darparu na chaiff rheoliadau o dan is-adran (3) ond pennu awdurdod cyhoeddus os yw'n awdurdod Cymreig datganoledig o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). O dan is-adran (5) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdod cyn ei bennu mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (3).
63. Mae is-adrannau (6) a (7) yn gwneud darpariaeth i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol Senedd Cymru fod yn gymwys i reoliadau a wneir o dan is-adran (3) ac i'r pŵer i wneud rheoliadau o'r fath gynnwys pŵer i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
64. Mae adran newydd 10C o Ddeddf 2013 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chanllawiau sydd i'w rhoi i awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill ynghylch eu swyddogaethau o dan adran newydd 10B.
65. Mae is-adrannau (1) a (2) yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch cyflawni dyletswyddau'r awdurdodau o dan adran 10B ac i roi canllawiau i unrhyw awdurdod cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 10B(3) ynghylch cyflawni dyletswyddau'r awdurdod o dan y rheoliadau.

*These notes refer to the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024
(asc 2)
which received Royal Assent on 14 February 2024.*

56. Subsection (5) requires the Welsh Ministers to publish a report as soon as reasonably practicable after the end of each reporting period (as defined in subsection (6)) specifying the steps they have taken in the performance of their duty under subsection (1). The Welsh Ministers may also publish additional reports (see subsection (7)).
57. Subsection (6) explains that the “reporting period” is the period of 3 years beginning with the day on which section 10A comes into force and each subsequent period of 3 years.
58. New section 10B of the 2013 Act makes provision for the promotion by local and other authorities of active travel as a way of reducing or limiting air pollution.
59. Subsection (1) places a duty on local authorities to take steps to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution in their areas.
60. Subsection (2) provides that when a local authority submits an integrated network map to the Welsh Ministers under section 4(9)(c) of the 2013 Act, it must also publish a report specifying the steps it has taken in performance of its duty under subsection (1) during the period beginning with the coming into force of subsection (1) and ending with the submission of the map or, in the case of subsequent reports, the period since it last published a report under this subsection.
61. Subsection (3) provides that the Welsh Ministers may by regulations impose the duties to take steps to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution and to publish reports on the steps taken on any public authority specified in the regulations.
62. Subsection (4) provides that regulations under subsection (3) may only specify a public authority if it is a “devolved Welsh authority” within the meaning of section 157A(1)(a) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Under subsection (5) the Welsh Ministers must consult an authority before specifying it in regulations made under subsection (3).
63. Subsections (6) and (7) make provision for the affirmative resolution procedure of Senedd Cymru to apply to regulations made under subsection (3) and for the power to make such regulations to include a power to make transitional or saving provision.
64. New section 10C of the 2013 Act makes provision in relation to guidance to be given to local and other authorities about their functions under new section 10B.
65. Subsections (1) and (2) place duties on the Welsh Ministers to give guidance to local authorities about the authorities’ performance of their duties under section 10B and to give guidance to any public authority specified in regulations made under section 10B(3) about the authority’s performance of its duties under the regulations.

66. O dan is-adran (3), cyn rhoi neu ddiwygio canllawiau o dan adran 10C, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod neu'r awdurdodau y mae'r canllawiau yn ymwneud ag ef neu â hwy ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
67. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar unrhyw awdurdod y rhoddir canllawiau iddo o dan adran 10C i roi sylw iddynt wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 10B neu, yn ôl y digwydd, o dan reoliadau a wneir o dan adran 10B.

Strategaeth ansawdd aer genedlaethol

68. Mae adran 80 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995¹ yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi strategaeth ansawdd aer genedlaethol.
69. Mae adran 80(4A) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi pa bryd y mae rhaid adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ac, os yw'n briodol, ei haddasu.
70. Mae'n darparu bod rhaid i'r strategaeth, i bob pwrpas, gael ei hadolygu erbyn 1 Mai 2023 ac, wedi hynny, o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad diweddaraf.

Adran 12 - Pŵer i newid cyfnod adolygu'r strategaeth

71. Mae is-adran (1) yn mewnosod is-adran newydd (8) yn adran 80 o Ddeddf 1995. Mae'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer newydd i wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a nodir yn adran 80(4A) o'r Ddeddf honno.
72. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 87 o Ddeddf 1995 (rheoliadau at ddibenion Rhan 4) fel bod unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer newydd yn adran 80(8) o Ddeddf 1995 yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol Senedd Cymru.

Adran 13- Ymgynghori wrth adolygu'r strategaeth

73. Mae'r adran hon yn diwygio adran 80 o Ddeddf 1995 drwy ddatgymhwysu'r gofynion ymgynghori a chyhoeddi mewn cysylltiad â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol yn is-adrannau (6) a (7) o ran Cymru a rhoi gofynion newydd yn is-adran newydd (10) yn eu lle.

¹ Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

*These notes refer to the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024
(asc 2)
which received Royal Assent on 14 February 2024.*

66. Under subsection (3), before giving or revising guidance under section 10C, the Welsh Ministers must consult the authority or authorities to which the guidance relates and any other persons the Welsh Ministers consider appropriate.
67. Subsection (4) places a duty on any authority to which guidance is given under section 10C to have regard to it in performing its duties under section 10B or, as the case may be, under regulations made under section 10B.

National air quality strategy

68. Section 80 of the Environment Act 1995¹ requires the publication of a national air quality strategy.
69. Section 80(4A) of the Environment Act 1995 sets out when the national air quality strategy must be reviewed and, if appropriate, modified.
70. It provides that the strategy must, in effect, be reviewed by 1 May 2023 and, subsequently, within each period of 5 years beginning with the day on which the most recent review was completed.

Section 12 - Power to change review period for strategy

71. Subsection (1) inserts new subsection (8) into section 80 of the 1995 Act. It gives the Welsh Ministers a new regulation making power to amend the review period for the national air quality strategy set out in section 80(4A) of that Act.
72. Subsection (2) amends section 87 of the 1995 Act (regulations for the purpose of Part 4) so that any regulations made under the new power in section 80(8) of the 1995 Act are subject to the affirmative resolution procedure of Senedd Cymru.

Section 13 - Consultation on review of strategy

73. This section amends section 80 of the 1995 Act by disapplying the consultation and publication requirements in respect of the national air quality strategy in subsections (6) and (7) in relation to Wales and replacing them with new requirements in new subsection (10).

¹ Functions of the Secretary of State under Part IV of the Environment Act 1995 (c. 25) were transferred in relation to Wales to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). These functions were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

74. Mae is-adran newydd (10) yn darparu, wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42), pob ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)), Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r cyhoedd.

Adran 14 - Dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth

75. Mae is-adran (1) yn mewnosod adran newydd 81B yn Neddf 1995.
76. Mae is-adran (1) o adran 81B yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol roi sylw i'r polisïau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn y strategaeth ansawdd aer genedlaethol o dan adran 80 o Ddeddf 1995 wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru.
77. O dan is-adrannau (2) a (3) o adran 81B, mae person yn "relevant Welsh public authority" os yw wedi ei ddynodi felly drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
78. Fodd bynnag, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddynodi person yn "relevant Welsh public authority" onid yw'n bodloni'r diffiniad o "devolved Welsh authority" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn golygu na chaiff person ei ddynodi onid yw'n awdurdod cyhoeddus (i) y mae ei swyddogaethau yn arferadwy o ran Cymru yn unig, a (ii) bod y swyddogaethau hynny yn rhai nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Mae awdurdod cyhoeddus wedi ei ddiffinio yn adran 157(A)(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "a body, office or holder of an office that has functions of a public nature".
79. Mae is-adran (4) o adran 81B yn darparu, cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) o adran 81B, fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y cynigir ei ddynodi yn "relevant Welsh public authority" a'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
80. Mae adran 14(2) yn diwygio adran 87(2) o Ddeddf 1995 (rheoliadau at ddibenion Rhan 4) i ychwanegu cyfeiriadau at "relevant Welsh public authority" lle y bo'n briodol yn yr is-adran honno.

74. New subsection (10) provides that when reviewing the national air quality strategy, the Welsh Ministers must consult with the Natural Resources Body for Wales, every local authority in Wales, every Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42), every National Health Service trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006, every public services board (within the meaning of Part 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw. 2)), the Future Generations Commissioner for Wales, Transport for Wales and the public.

Section 14 - Duty to have regard to strategy

75. Subsection (1) inserts new section 81B into the 1995 Act.
76. Subsection (1) of section 81B requires Welsh local authorities and relevant Welsh public authorities to have regard to the policies published by the Welsh Ministers in the national air quality strategy under section 80 of the 1995 Act when exercising any function of a public nature that could affect the quality of air in Wales.
77. Under subsections (2) and (3) of section 81B, a person is a “relevant Welsh public authority” if they have been designated as such by regulations made by the Welsh Ministers.
78. However, the Welsh Ministers may only designate a person as a “relevant Welsh public authority” if they meet the definition of “devolved Welsh authority” in section 157A(1)(a) of the Government of Wales Act 2006. This means a person can only be designated if they are a public authority (i) whose functions are exercisable only in relation to Wales, and (ii) are wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters. Public authority is defined in section 157(A)(8) of the Government of Wales Act 2006 as “a body, office or holder of an office that has functions of a public nature”.
79. Subsection (4) of section 81B provides that before making regulations under subsection (3) of section 81B, the Welsh Ministers must consult the person who is proposed to be designated as a “relevant Welsh public authority” and such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
80. Section 14(2) amends section 87(2) of the 1995 Act (regulations for the purposes of Part 4) to add references to “relevant Welsh public authority” where appropriate in that subsection.

81. Mae adran 14(3) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1995 (canllawiau at ddibenion Rhan 4). Mae'n mewnosod is-adrannau newydd (4) a (5) yn adran 88. Mae is-adran newydd (4) yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol mewn perthynas â chyflawni unrhyw ddyletswyddau a osodir arnynt yn rhinwedd adran 81B o Ddeddf 1995 neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno. Mae is-adran newydd (5) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran newydd (4) wrth arfer unrhyw bwerau neu gyflawni unrhyw ddyletswyddau y mae'r canllawiau yn ymwneud â hwy.
82. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 91 o Ddeddf 1995 (dehongli Rhan 4) i ychwanegu cyfeiriad at awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol, gan ddatgan bod iddo'r ystyr a nodir yn adran 81B(2).

Rheoliadau ansawdd aer

Adran 15 – Ymgynghori ar reoliadau ansawdd aer

83. Mae adran 87 o Ddeddf 1995 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n gymwys i reoliadau a wneir at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno.
84. Mae adran 12 o'r Ddeddf hon yn mewnosod is-adrannau newydd (7A) a (7B) yn adran 87 o Ddeddf 1995. Effaith hyn yw datgymhwyso'r gofynion ymgynghori yn is-adran (7) o ran Cymru a rhoi gofynion newydd yn eu lle.
85. Mae'r gofynion hyn yn darparu, cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 4 o Ddeddf 1995, fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyhoedd.

Rheoli ansawdd aer yn lleol

86. O dan Ran 4 o Ddeddf 1995, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am reoli ansawdd aer ar lefel leol, drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu ac asesu ansawdd aer yn eu hardal yn gyfnodol, ac i ddynodi ardaloedd rheoli ansawdd aer a llunio cynlluniau gweithredu ar gyfer yr ardaloedd hynny lle y canfyddir bod ansawdd yr aer mewn perygl o fynd uwchlaw safonau ac amcanion o ran llygryddion.
87. Mae adran 82 o Ddeddf 1995 yn gwneud darpariaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad o ansawdd yr aer, ac ansawdd tebygol yr aer yn y dyfodol o fewn y cyfnod perthnasol, yn ardal yr awdurdod. Pan fo awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o'r fath, rhaid iddo hefyd asesu pa un a yw safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni neu'n debygol o gael eu cyflawni yn y cyfnod perthnasol yn ardal yr awdurdod.

81. Section 14(3) amends section 88 of the 1995 Act (guidance for the purposes of Part 4). It inserts new subsections (4) and (5) into section 88. New subsection (4) provides the Welsh Ministers with the power to issue guidance to relevant Welsh public authorities in relation to the discharge of any duties placed on them by virtue of section 81B of the 1995 Act or regulations made by the Welsh Ministers under Part 4 of that Act. New subsection (5) places a duty on relevant Welsh public authorities to have regard to guidance published by Welsh Ministers under new subsection (4) when exercising any powers or discharging any duties to which the guidance relates.
82. Subsection (4) amends section 91 of the 1995 Act (interpretation of Part 4) to add a reference to relevant Welsh public authority, stating it has the meaning set out in section 81B(2).

Air quality regulations

Section 15 - Consultation on air quality regulations

83. Section 87 of the 1995 Act contains general provisions that apply to regulations that are made for the purposes of Part 4 of that Act.
84. Section 15 of this Act inserts new subsections (7A) and (7B) into section 87 of the 1995 Act. These have the effect of disapplying the consultation requirements in subsection (7) in relation to Wales and replacing them with new requirements.
85. These requirements provide that before making regulations under Part 4 of the 1995 Act, the Welsh Ministers must consult: the Natural Resources Body for Wales; every local authority in Wales; the Public Health Wales National Health Service Trust; every Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 and the public.

Local air quality management

86. Under Part 4 of the 1995 Act, local authorities in Wales are responsible for managing air quality at local level, through the Local Air Quality Management process (LAQM). The LAQM process requires local authorities to periodically review and assess air quality in their area, and to designate air quality management areas and produce action plans for those areas where air quality is found to be at risk of exceeding pollutant standards and objectives.
87. Section 82 of the 1995 Act makes provision for every local authority in Wales to conduct a review of the quality, and the likely future quality within the relevant period, of air within the authority's area. Where a local authority carries out such a review, it must also make an assessment of whether air quality standards and objectives are being achieved or are likely to be achieved within the relevant period within the authority's area.

88. Yn dilyn adolygiad o ansawdd aer, os yw'n ymddangos nad yw unrhyw safonau neu amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni neu nad ydynt yn debygol o gael eu cyflawni yn y cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau, rhaid i'r awdurdod lleol ddynodi unrhyw ran o'i ardal lle nad yw'r safonau hynny'n cael eu cyflawni yn ardal rheoli ansawdd aer neu'n ardal ddynodedig.

Adran 16 - Adolygiadau o ansawdd aer gan awdurdodau lleol

89. Mae adran 16 yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 82 o Ddeddf 1995. Effaith yr is-adran newydd hon yw ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal adolygiad o ansawdd aer bob blwyddyn galendr, yn hytrach nag o bryd i'w gilydd.

Adran 17 - Cynlluniau gweithredu mewn perthynas ag ardaloedd rheoli ansawdd aer

90. Mae adran 17 yn mewnosod adran newydd 83B yn Neddf 1995. Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn rhannol mae'n ailddeddfu adran 84 o Ddeddf 1995 (dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Alban mewn perthynas ag ardaloedd dynodedig) a ddatgymhwysir mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru gan adran 14(2) o'r Ddeddf.
91. Mae adran newydd 83B(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol lunio cynllun gweithredu mewn perthynas ag ardal ddynodedig ac anfon copi at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Mae adran 83B(8) yn darparu nad yw'r cynllun yn cael effaith oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
92. Mae adran 83B(3) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gweithredu nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau i sicrhau y cyflawnir safonau ac amcanion ansawdd aer yn yr ardal a gwmpesir gan y cynllun, a phennu, mewn perthynas â phob safon ac amcan, ddyddiad erbyn pryd y bydd yr awdurdod lleol yn anelu at gyflawni'r safon honno neu'r amcan hwnnw.
93. Mae adran 83B(4) yn darparu bod rhaid i gynllun gweithredu hefyd nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau bod safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cynnal ar ôl iddynt gael eu cyflawni yn yr ardal y mae'r cynllun yn ymwneud â hi. Mae adran 83B(5) yn darparu bod rhaid i gynllun gweithredu bennu'r mesurau penodol sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau bod safonau ac amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni a'u cynnal yn yr ardal a gwmpesir gan y cynllun, a phennu dyddiad erbyn pryd y bydd pob mesur wedi ei gynnal.
94. Mae adran 83B(6) yn darparu y caiff awdurdod lleol lunio diwygiadau i gynllun gweithredu ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod ddiwygio cynllun gweithredu os yw'n ystyried bod angen rhoi mesurau pellach neu fesurau gwahanol ar waith er mwyn cyflawni'r safonau a'r amcanion ansawdd aer a nodir yn y cynllun erbyn y dyddiad a osodir o dan adran 83B(3)(b) ac er mwyn cynnal y safonau a'r amcanion hynny yn yr ardal a gwmpesir gan y cynllun.

88. Following an air quality review, if it appears that any air quality standards or objectives are not being achieved or are not likely to be achieved within the period prescribed in regulations, the local authority must designate any part of its area in which those standards are not being achieved, as an air quality management area or “designated area”.

Section 16 - Local authority air quality reviews

89. Section 16 inserts a new subsection (1A) into section 82 of the 1995 Act. The effect of this new subsection is to require every local authority in Wales to conduct an air quality review every calendar year, rather than from time to time.

Section 17 - Action plans in relation to air quality management areas

90. Section 17 inserts a new section 83B into the 1995 Act. This section applies in relation to local authorities in Wales, and in part re-enacts section 84 of the 1995 Act (duties of Scottish and Welsh local authorities in relation to designated areas) which is disapplied in relation to Welsh local authorities by section 17(2) of the Act.
91. New section 83B(2) requires a local authority to prepare an action plan in relation to a designated area and send a copy to the Welsh Ministers for approval. Section 83B(8) provides that the plan does not take effect unless it is approved by the Welsh Ministers.
92. Section 83B(3) requires an action plan to set out how the local authority will exercise its functions to secure that air quality standards and objectives are achieved in the area covered by the plan, and to specify, in relation to each standard and objective, a date by which the local authority will aim to achieve that standard or objective.
93. Section 83B(4) provides that an action plan must also set out how the local authority intends to exercise its functions to secure that air quality standards and objectives are maintained once they have been achieved in the area to which the plan relates. Section 83B(5) provides that an action plan must specify the particular measures to be taken to secure the achievement, and maintenance, of air quality standards and objectives in the area covered by the plan, and specify a date by which each measure will be carried out.
94. Section 83B(6) provides that a local authority may prepare revisions to an action plan at any time. However, the authority must revise an action plan if it considers that further or different measures need to be taken in order to achieve the air quality standards and objectives identified in the plan by the date set under section 83B(3)(b) and in order to maintain those standards and objectives in the area covered by the plan.

95. Os bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddiwygio, mae adran 83B(7) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol anfon copiâu o'r diwygiadau at Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. O dan adran 83B(8), nid yw'r diwygiad i'r cynllun yn cael effaith oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Adran 18 - Pwerau cyfarwyddo Gweinidogion Cymru

96. Mae adran 18 yn diwygio adran 85 o Ddeddf 1995. Mae adran 85(3) yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol i gymryd y camau a geir yn y cyfarwyddyd.
97. Mae adran 18 yn mewnosod paragraffau newydd (e) ac (f) yn adran 85(3). Mae adran newydd 85(3)(e) yn golygu os yw awdurdod lleol yng Nghymru wedi methu â chyflawni mesur a bennir mewn cynllun gweithredu erbyn y dyddiad a bennir yn y cynllun mewn perthynas â'r mesur hwnnw, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i gymryd camau penodedig. Mae adran newydd 85(3)(f) yn golygu os nad yw safon neu amcan ansawdd aer wedi ei chyflawni neu wedi ei gyflawni, mewn ardal ddynodedig yng Nghymru, erbyn y dyddiad a bennir yn y cynllun gweithredu fel y dyddiad erbyn pryd y disgwylir i'r safon neu'r amcan gael ei chyflawni neu ei gyflawni, gall Gweinidogion Cymru, unwaith eto, gyfarwyddo'r awdurdod lleol perthnasol i gymryd camau penodedig.

Rheoli mwg

Adran 19 - Rheoleiddio mwg a thanwydd mewn ardaloedd rheoli mwg

98. Mae adran 19 yn mewnosod adrannau newydd 19E - 19H yn Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993² (p. 11) (y cyfeirir ati fel "Deddf 1993" yn y Nodiadau Esboniadol hyn). Mae Rhan 3 o Ddeddf 1993 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli ac atal llygredd aer a achosir gan fwg ac allyriadau cysylltiedig eraill.
99. Mae adran 18 o Ddeddf 1993 yn galluogi awdurdod lleol i wneud gorchymyn rheoli mwg yn datgan bod ei ardal gyfan, neu unrhyw ran ohoni, yn ardal rheoli mwg. O dan adran 19 o Ddeddf 1993, gall Gweinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, gyfarwyddo awdurdod lleol yng Nghymru i arfer ei bŵer i greu ardal rheoli mwg.
100. Mae adran newydd 19E o Ddeddf 1993 yn cymhwyso Atodlen 1A i Ddeddf 1993 i Gymru fel bod cosb sifil am allyrru mwg heb awdurdodiad mewn ardal rheoli mwg. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau pellach i Atodlen 1A i Ddeddf 1993 at y diben hwn. Mae'r troseddau yn adran 20 o Ddeddf 1993 wedi eu diddymu o ran Cymru (gweler paragraff 12 o Atodlen 1 i'r Ddeddf).

² Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3 o Ddeddf Aer Glân 1993 (p. 11) o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

95. If an action plan is revised, section 83B(7) provides that the local authority must send copies of the revisions to the Welsh Ministers for approval. Under section 83B(8), the revision to the plan does not take effect unless it is approved by the Welsh Ministers.

Section 18 - Welsh Ministers' powers of direction

96. Section 18 amends section 85 of the 1995 Act. Section 85(3) sets out the circumstances in which the Welsh Ministers may give a direction to a local authority to take the steps contained in the direction.
97. Section 18 inserts new paragraphs (e) and (f) into section 85(3). New section 85(3)(e) means that if a local authority in Wales has failed to carry out a measure specified in an action plan by the date specified in the plan in relation to that measure, the Welsh Ministers can direct the local authority to take specified steps. New section 85(3)(f) means that if an air quality standard or objective has not been achieved, within a designated area in Wales, by the date specified in the action plan as the date by which the standard or objective is expected to be achieved, the Welsh Ministers can, again, direct the relevant local authority to take specified steps.

Smoke control

Section 19 - Regulation of smoke and fuel in smoke control areas

98. Section 19 inserts new sections 19E - 19H into Part 3 of the Clean Air Act 1993² (c. 11) (referred to as "the 1993 Act" in these Explanatory Notes). Part 3 of the 1993 Act makes provision for the control and prevention of air pollution by smoke and other related emissions.
99. Section 18 of the 1993 Act enables a local authority to make a smoke control order declaring the whole or any part of its area a smoke control area. Under section 19 of the 1993 Act, the Welsh Ministers can, in certain circumstances, direct a local authority in Wales to exercise its powers to create a smoke control area.
100. New section 19E of the 1993 Act applies Schedule 1A to the 1993 Act to Wales so that the unauthorised emission of smoke in a smoke control area attracts a civil penalty. Part 1 of Schedule 1 to the Act makes further amendments to Schedule 1A to the 1993 Act for this purpose. The criminal offences in section 20 of the 1993 Act are repealed in relation to Wales (see paragraph 12 of Schedule 1 to the Act).

² Functions of the Secretary of State under Part 3 of the Clean Air Act 1993 (c. 11) were transferred in relation to Wales to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). These functions were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

101. Mae adran newydd 19F(1)(a)-(c) o Ddeddf 1993 yn ei gwneud yn drosedd i gaffael unrhyw danwydd solet i'w ddefnyddio mewn adeilad, lle tân, boeler sefydlog neu gyfarpar diwydiannol sefydlog y mae gorchymyn rheoli mwg yng Nghymru yn gymwys iddo. Nid yw'r troseddau hyn yn gymwys i danwyddau awdurdodedig. O dan adran newydd 19G(3), caiff Gweinidogion Cymru gadw rhestr o danwyddau awdurdodedig a phan fyddant yn gwneud hynny, rhaid iddynt ei chyhoeddi.
102. Nid yw'r drosedd yn adran 19F(1)(b) yn gymwys os yw'r lle tân o dan sylw, ar yr adeg y caffaelir y tanwydd solet, ar y rhestr o leoedd tân esempt a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran newydd 19G(1). Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond cynnwys lle tân ar y rhestr os ydynt wedi eu bodloni y gall y lle tân, o'i ddefnyddio mewn modd sy'n cydymffurfio ag unrhyw amodau a bennir yn y rhestr, gael ei ddefnyddio i losgi tanwydd solet anawdurdodedig heb gynhyrchu unrhyw fwg neu swm sylweddol o fwg.
103. Mae adran newydd 19F(1)(d) o Ddeddf 1993 yn ei gwneud yn drosedd i werthu tanwydd anawdurdodedig i'w ddanfôn i adeilad y mae gorchymyn rheoli mwg yng Nghymru yn gymwys iddo neu i fangre sydd â boeler sefydlog neu gyfarpar diwydiannol sefydlog y mae gorchymyn rheoli mwg yng Nghymru yn gymwys iddo. Ni chyflawnir unrhyw drosedd os gall y person sy'n gwerthu'r tanwydd gadarnhau un o'r amddiffyniadau yn adran 19F(5).
104. Nid yw'r drosedd yn adran newydd 19F(1)(d) o Ddeddf 1993 yn gymwys i danwyddau awdurdodedig.
105. O dan adran newydd 19H(1)(b) o Ddeddf 1993, gall Gweinidogion Cymru atal dros dro neu lacio gweithrediad y troseddau yn adran 19F(1)(a)-(d) mewn perthynas ag ardal rheoli mwg benodol gyfan yng Nghymru, neu ran ohoni. Ni chaniateir iddynt wneud hynny onid yw'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus i wneud hynny a'u bod yn gyntaf wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol a ddatganodd yr ardal rheoli mwg o dan sylw (oni bai bod ymgynghori yn anymarferol oherwydd natur frys y sefyllfa).
106. O dan adran 19H(1)(a), gall Gweinidogion Cymru hefyd atal dros dro neu lacio gweithrediad Atodlen 1A i Ddeddf 1993 mewn perthynas ag ardal rheoli mwg gyfan yng Nghymru, neu ran ohoni. Ni chaniateir iddynt wneud hynny onid yw'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus i wneud hynny a'u bod yn gyntaf wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol a ddatganodd yr ardal rheoli mwg o dan sylw (oni bai bod ymgynghori yn anymarferol oherwydd natur frys y sefyllfa).

Adran 20 - Canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg

107. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 1993 i fewnosod adran newydd 28B sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 3 o Ddeddf 1993.

101. New section 19F(1)(a)-(c) of the 1993 Act makes it an offence to acquire any solid fuel for use in a building, fireplace, fixed boiler or industrial plant to which a smoke control order in Wales applies. These offences do not apply to authorised fuels. Under new section 19G(3), the Welsh Ministers may keep a list of authorised fuels and where they do so, they must publish it.
102. The offence in section 19F(1)(b) does not apply if, at the time the solid fuel is acquired, the fireplace in question is on the list of exempt fireplaces published by the Welsh Ministers under new section 19G(1). The Welsh Ministers can only include a fireplace on the list if they are satisfied that the fireplace can, if used in compliance with any conditions specified in the list, be used for burning unauthorised solid fuel without producing any smoke or a substantial quantity of smoke.
103. New section 19F(1)(d) of the 1993 Act makes it an offence to sell unauthorised fuel for delivery to a building to which a smoke control order in Wales applies or to premises with a fixed boiler or industrial plant to which a smoke control order in Wales applies. No offence is committed if the person selling the fuel can establish one of the defences in section 19F(5).
104. The offence in new section 19F(1)(d) of the 1993 Act does not apply to authorised fuels.
105. Under new section 19H(1)(b) of the 1993 Act, the Welsh Ministers can suspend or relax the operation of the offences in section 19F(1)(a)-(d) in relation to the whole or part of a particular smoke control area in Wales. They can only do so if it appears necessary or expedient to do so and they have first consulted the local authority that declared the smoke control area in question (unless consultation is impracticable due to urgency).
106. Under section 19H(1)(a), the Welsh Ministers can also suspend or relax the operation of Schedule 1A to the 1993 Act in relation to the whole or part of a smoke control area in Wales. They can only do so if it appears necessary or expedient to do so and they must first consult the local authority that declared the smoke control area in question (unless consultation is impracticable due to urgency).

Section 20 – Guidance for local authorities in relation to smoke control areas

107. This section amends the 1993 Act to insert a new section 28B which requires local authorities in Wales to have regard to any guidance published by the Welsh Ministers about the exercise of the local authority’s functions under Part 3 of the 1993 Act.

Adran 21 - Darpariaeth bellach sy'n ymwneud â rheoli mwg

108. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Ddeddf, sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â rheoli mwg.

Atodlen 1

Rhan 1

109. Mae'r rhan hon yn gwneud diwygiadau amrywiol i Atodlen 1A i Ddeddf 1993 i ganiatáu i'r gyfundrefn sancsiynau sifil a geir yn yr Atodlen honno fod yn gymwys o ran Cymru.

Rhan 2

110. Mae'r Rhan hon yn hepgor darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf 1993 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau penodol, ad-dalu perchenogion neu ddeiliaid hen anheddau preifat am wariant yr aed iddo i osgoi torri adran 20 o'r Ddeddf honno.

Rhan 3

111. Mae'r Rhan hon yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 1993 o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan Rannau 1 a 2 o'r Atodlen hon, a chan adrannau 19 ac 20 o'r Ddeddf hon.

112. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i Atodlenni 1 a 5 i Ddeddf 1993 mewn perthynas â chyhoeddi hysbysiadau ynghylch gorchmynion rheoli mwg gan awdurdodau lleol ar eu gwefannau.

Allyriadau cerbydau

Adran 22 - Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

113. Mae adran 22 o'r Ddeddf yn diwygio adran 167 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000³ (p. 38) (y cyfeirir ati fel "Deddf 2000" yn y Nodiadau Esboniadol hyn), sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.

114. Mae adran 22(2)(a) yn diwygio adran 167(2) o Ddeddf 2000 fel nad yw'n gymwys ond i gynllun codi tâl a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac nad yw'n gymwys mwyach i gynllun codi tâl a wneir gan Weinidogion Cymru.

115. Mae adran 22(2)(b) yn mewnosod is-adrannau newydd (3) a (4) yn adran 167 o Ddeddf 2000. Mae'r is-adrannau hyn yn gymwys i gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir gan Weinidogion Cymru.

³ Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Section 21 - Further provision relating to smoke control

108. This section introduces Schedule 1 to the Act, which makes further provision in relation to smoke control.

Schedule 1

Part 1

109. This part makes various amendments to Schedule 1A to the 1993 Act to allow for the civil sanctions regime contained in that Schedule to apply in relation to Wales.

Part 2

110. This part omits provisions in Schedule 2 to the 1993 Act that require local authorities, in certain circumstances, to reimburse owners or occupiers of old private dwellings for expenditure incurred to avoid a contravention of section 20 of that Act.

Part 3

111. This Part makes other amendments to the 1993 Act in consequence of the provision made by Parts 1 and 2 of this Schedule, and by sections 19 and 20 of this Act.

112. It also makes amendments to Schedules 1 and 5 to the 1993 Act in relation to the publication of notices about smoke control orders by local authorities on their websites.

Vehicle emissions

Section 22 - Trunk road charging schemes

113. Section 22 of the Act amends section 167 of the Transport Act 2000 ³(c. 38) (referred to as “the 2000 Act” in these Explanatory Notes), which sets out the circumstances in which the Welsh Ministers may make trunk road charging schemes.

114. Section 22(2)(a) amends section 167(2) of the 2000 Act so that it applies only to a charging scheme made by the Secretary of State, and no longer applies to a charging scheme made by the Welsh Ministers.

115. Section 22(2)(b) inserts new subsections (3) and (4) into section 167 of the 2000 Act. These subsections apply to trunk road charging schemes made by the Welsh Ministers.

³ Functions conferred on the National Assembly for Wales under the Transport Act 2000 (c. 38) were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

116. Mae is-adran (3) yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Mae'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (3)(a) ac (c) yn debyg i'r amgylchiadau yr oedd Gweinidogion Cymru eisoes yn gallu gwneud cynlluniau codi tâl o'r fath oddi tanynt. Fodd bynnag, mae is-adran (3)(b) yn ychwanegu set newydd o amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd oddi tanynt: bellach caiff Gweinidogion Cymru wneud cynllun os diben y cynllun yw lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno yng nghyffiniau'r ffordd honno. Mae is-adran newydd (4) yn darparu nad yw is-adran (3)(b) yn atal cynllun rhag cael ei wneud o dan is-adran (3)(c) i leihau llygredd aer neu gyfyngu arno.

Adran 23 – Darpariaeth bellach sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

117. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer, ac mewn cysylltiad â, chymhwyso'r enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddiben lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno.

Atodlen 2

118. Mae Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn cynnwys darpariaeth ariannol ynghylch cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.
119. Mae paragraffau 2 a 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 12 i Ddeddf 2000 mewn perthynas â'r newidiadau a wneir i adran 167 o'r Ddeddf honno gan adran 22 o'r Ddeddf.

*These notes refer to the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024
(asc 2)
which received Royal Assent on 14 February 2024.*

116. Subsection (3) sets out the circumstances in which the Welsh Ministers may make a trunk road charging scheme. The circumstances set out in subsection (3)(a) and (c) are similar to the circumstances in which the Welsh Ministers were already able to make such charging schemes. However, subsection (3)(b) adds a new set of circumstances in which the Welsh Ministers may make a trunk road charging scheme: the Welsh Ministers may now make a scheme if the purpose of the scheme is to reduce or limit air pollution in the vicinity of that road. The new subsection (4) provides that subsection (3)(b) does not prevent a scheme being made under subsection (3)(c) for the purpose of reducing or limiting air pollution.

Section 23 – Further provision relating to trunk road charging schemes

117. This section introduces Schedule 2 to the Act, which makes provision for and in connection with the application of the net proceeds of trunk road charging schemes made for the purposes of reducing or limiting air pollution.

Schedule 2

118. Schedule 12 to the 2000 Act includes financial provision about trunk road charging schemes.
119. Paragraphs 2 and 3 of Schedule 2 to the Act make consequential amendments to Schedule 12 to the 2000 Act in relation to the changes made to section 167 of that Act by section 22 of the Act.

120. Mae paragraff 13 o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch enillion cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir o dan adran 167(2) o Ddeddf 2000. Mae paragraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn diwygio paragraff 13 o Atodlen 12 ac yn mewnosod paragraffau newydd 14 a 15 yn Atodlen 12 mewn perthynas â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 167(3) o Ddeddf 2000. Mae'r diwygiadau a'r darpariaethau newydd hyn yn golygu:
- a) Os yw'r Ysgrifenydd Gwladol yn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(2) o Ddeddf 2000, mae paragraff 13 o Atodlen 12 i'r Ddeddf honno yn gymwys i'r cynllun hwnnw.
 - b) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(3) o Ddeddf 2000 naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol i leihau llygredd aer neu gyfyngu arno, mae paragraff 14 newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn gymwys i'r cynllun hwnnw. Mae hyn yn golygu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y cynllun, fod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn cadarnhau'r materion a restrir ym mharagraff newydd 14(2) o Atodlen 12 i Ddeddf 2000. Rhaid i'r datganiad hwn hefyd gael ei osod gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y cynllun.
 - c) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(3) o Ddeddf 2000 nad yw'n gyfan gwbl neu'n rhannol i leihau llygredd aer neu gyfyngu arno, mae paragraff newydd 15 o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 yn gymwys i'r cynllun hwnnw. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael yr un effaith â pharagraff 13 o Atodlen 12 i Ddeddf 2000 mewn perthynas â'r cynlluniau hynny.
121. Mae paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn diwygio adran 197 o Ddeddf 2000 er mwyn pennu gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan baragraff newydd 15 o Atodlen 12 i Ddeddf 2000. Mae'n gwneud hynny drwy nodi, yn llawn, y gofynion gweithdrefnol sy'n gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno.

Adran 24 – Trosedd segura llonydd: cosb benodedig

122. Mae adran 87 o Ddeddf 1995 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau amrywiol mewn rheoliadau at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi person i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am drosedd drwy dalu cosb y mae ei swm wedi ei ragnodi yn y rheoliadau ("cosb benodedig").
123. Mae adran 24(2)(a) o'r Ddeddf yn diwygio ac yn mewnosod darpariaeth newydd yn adran 87(2)(o) o Ddeddf 1995 fel bod rheoliadau o dan adran 87 o Ddeddf 1995, yn achos trosedd segura llonydd a ragnodir gan Weinidogion Cymru, yn gallu, yn hytrach, ragnodi ystod ariannol y caniateir gosod swm y gosb o'i mewn.
124. Mae'r term "stationary idling offence" wedi ei ddiffinio yn adran newydd 87(2B) o Ddeddf 1995, a fewnosodir gan adran 24(2)(b) o'r Ddeddf.

120. Paragraph 13 of Schedule 12 to the 2000 Act makes provision about the proceeds of trunk road charging schemes made under section 167(2) of the 2000 Act. Paragraphs 4, 5 and 6 of Schedule 2 to the Act amend paragraph 13 of Schedule 12 and insert new paragraphs 14 and 15 into Schedule 12 in respect of trunk road charging schemes made by the Welsh Ministers under section 167(3) of the 2000 Act. These amendments and new provisions mean that:
- a) If the Secretary of State makes a trunk road charging scheme under section 167(2) of the 2000 Act, paragraph 13 of Schedule 12 to that Act applies to that scheme.
 - b) If the Welsh Ministers make a trunk road charging scheme under section 167(3) of the 2000 Act either wholly or partially for the purpose of reducing or limiting air pollution, new paragraph 14 of Schedule 12 to the 2000 Act applies to that scheme. This means that, as soon as reasonably practicable after the scheme is made, the Welsh Ministers must publish a statement confirming the matters listed in new paragraph 14(2) of Schedule 12 to the 2000 Act. This statement must also be laid before the Senedd Cymru as soon as reasonably practicable after the scheme is made.
 - c) If the Welsh Ministers make a trunk road charging scheme under section 167(3) of the 2000 Act that is not wholly or partially for the purpose of reducing or limiting air pollution, new paragraph 15 of Schedule 12 to the 2000 Act applies to that scheme. This provision has the same effect as paragraph 13 of Schedule 12 to the 2000 Act in relation to such schemes.
121. Paragraph 7 of Schedule 2 to the Act amends section 197 of the 2000 Act in order to specify the Senedd procedures that apply to regulations made under new paragraph 15 of Schedule 12 to the 2000 Act. It does so by setting out, in full, the procedural requirements that apply to regulations made by the Welsh Ministers under Part 3 of that Act.

Section 24 – Stationary idling offence: fixed penalty

122. Section 87 of the 1995 Act enables the Welsh Ministers to make various provisions in regulations for the purposes of Part 4 of that Act. This includes provision enabling a person to discharge liability to conviction for an offence by paying a penalty of an amount prescribed in the regulations (a “fixed penalty”).
123. Section 24(2)(a) of the Act amends and inserts new provision into section 87(2)(o) of the 1995 Act so that, in the case of a stationary idling offence prescribed by the Welsh Ministers, regulations under section 87 of the 1995 Act can, instead, prescribe a monetary range within which the amount of the penalty may be set.
124. A “stationary idling offence” is defined in new section 87(2B) of the 1995 Act, which is inserted by section 24(2)(b) of the Act.

125. Mae adran 24(3) yn diwygio Atodlen 11 (ansawdd aer: darpariaeth atodol) i Ddeddf 1995, i gynnwys swm sy'n dod o fewn ystod ariannol ragnodedig yn y diffiniad o gosb benodedig. Mae hefyd yn diwygio'r diffiniad o "fixed penalty notice" yn yr Atodlen honno i adlewyrchu'r newid hwn.

Rhan 2 - Seinweddau

Strategaeth seinweddau genedlaethol

126. Cyn i'r Ddeddf hon fynd ar ei hynt, nid oedd unrhyw ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio a mabwysiadu mapiau sŵn strategol a rhaid iddynt lunio cynlluniau gweithredu ar sŵn, ac mae'r Rheoliadau yn rhagnodi yr hyn y mae'n rhaid i'r mapiau a'r cynlluniau gweithredu hynny eu cynnwys. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau sy'n gallu ymgorffori'r mapiau sŵn strategol a'r cynlluniau gweithredu ar sŵn sy'n ofynnol o dan reoliadau 7 a 17 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006.

Adran 25 - Strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau

127. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth genedlaethol sy'n cynnwys eu polisiau mewn perthynas ag asesu, rheoli a dylunio seinweddau yng Nghymru.
128. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth gynnwys polisiau i asesu llygredd sŵn a'i reoli'n effeithiol. Yn unol ag is-adran (3), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gadw'r polisiau hyn o dan adolygiad. Yn unol ag is-adran (4), caiff Gweinidogion Cymru addasu'r strategaeth.
129. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu ac, os yw'n briodol, addasu'r strategaeth o fewn 5 mlynedd i'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth am y tro cyntaf ac, wedi hynny, o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad diwethaf.
130. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth adolygu neu lunio'r strategaeth, roi sylw i wybodaeth wyddonol sy'n berthnasol i seinweddau a'r mapiau sŵn strategol diweddaraf a fabwysiadwyd o dan reoliad 23 o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006. Mae is-adran (6) hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio neu adolygu'r strategaeth, ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, pob ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r cyhoedd.
131. Mae is-adran (7) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnodau adolygu y cyfeirir atynt yn is-adran (5).

125. Section 24(3) amends Schedule 11 (air quality: supplemental provision) to the 1995 Act, to include in the definition of fixed penalty, an amount falling within a prescribed monetary range. It also amends the definition of “fixed penalty notice” in that Schedule to reflect this change.

Part 2 – Soundscapes

National soundscapes strategy

126. Prior to the passage of this Act, there was no duty on Welsh Ministers to publish a national strategy on soundscapes. However, the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006 provide that Welsh Ministers must make and adopt strategic noise maps and must draw up noise action plans, and prescribes what they must contain. The provisions in this Act place a duty on Welsh Ministers to prepare and publish a national strategy on soundscapes which can incorporate the strategic noise maps and noise actions plans required under regulations 7 and 17 of the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006.

Section 25 - National strategy on soundscapes

127. Subsection (1) places a duty on Welsh Ministers to prepare and publish a national strategy containing their policies in relation to the assessment, management and design of soundscapes in Wales.
128. Subsection (2) requires the strategy to include policies for assessing and effectively managing noise pollution. In accordance with subsection (3), the Welsh Ministers are required to keep these policies under review. In accordance with subsection (4), the Welsh Ministers may modify the strategy.
129. Subsection (5) requires the Welsh Ministers to review and, if appropriate, modify the strategy within 5 years of the date on which the strategy is first published and, subsequently, within each period of 5 years beginning with the day on which the last review was completed.
130. Subsection (6) provides that the Welsh Ministers, when reviewing or preparing the strategy, must have regard to scientific knowledge relevant to soundscapes and the most recent strategic noise maps adopted under regulation 23 of the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006. Subsection (6) also provides that in preparing or reviewing the strategy, the Welsh Ministers must consult with the Natural Resources Body for Wales, every local authority in Wales, every Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006, every National Health Service trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006, every public services board (within the meaning of Part 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015), the Future Generations Commissioner for Wales, Transport for Wales and the public.
131. Subsection (7) gives the Welsh Ministers the power to amend the review periods referred to in subsection (5).

132. Mae is-adran (8) yn darparu bod strategaeth bresennol sy'n bodloni gofynion is-adrannau (1) a (2) ar yr adeg y daw adran 25 i rym yn gallu cael ei thrin fel y strategaeth a luniwyd ac a gyhoeddwyd o dan is-adran (1). O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw gofynion is-adran (6) yn gymwys mewn perthynas â llunio'r strategaeth.
133. Mae is-adran (9) yn diffinio awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon ac adran 26 fel cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Adran 26 – Dyletswydd i roi sylw i strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau

134. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol roi sylw i'r polisiau yn y strategaeth genedlaethol ynghylch seinweddau a gyhoeddir o dan adran 25 wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur cyhoeddus a allai effeithio ar seinweddau yng Nghymru.
135. O dan is-adrannau (2) a (3), mae person yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" os yw wedi ei ddynodi felly drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
136. Fodd bynnag, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddynodi person yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" onid yw'n bodloni'r diffiniad o "devolved Welsh authority" yn adran 157A(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn golygu na chaiff person ei ddynodi onid yw'n awdurdod cyhoeddus (i) y mae ei swyddogaethau yn arferadwy o ran Cymru yn unig, a (ii) bod y swyddogaethau hynny yn rhai nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Mae awdurdod cyhoeddus wedi ei ddiffinio yn adran 157(A)(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "a body, office or holder of an office that has functions of a public nature".
137. Mae is-adran (4) yn darparu, cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y cynigir ei ddynodi yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" a'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Adran 27 – Pŵer i newid cylchoedd ar gyfer gwneud mapiau sŵn strategol ac adolygu cynlluniau gweithredu ar sŵn

138. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i newid yr ysbeidiau y mae rhaid gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol arnynt o dan reoliad 7(2) o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 ac i newid y cyfnod y mae rhaid cynnal adolygiadau o gynlluniau gweithredu ar sŵn ynddo o dan reoliad 17(3)(b) o'r Rheoliadau hynny.

132. Subsection (8) provides that an existing strategy that fulfils the requirements of subsections (1) and (2) at the time section 25 comes into force can be treated as the strategy prepared and published under subsection (1). In these circumstances, the requirements of subsection (6) do not apply in relation to the preparation of the strategy.
133. Subsection (9) defines local authority for the purposes of this section and section 26 as a county council or county borough council.

Section 26 – Duty to have regard to national strategy on soundscapes

134. Subsection (1) requires local authorities and relevant Welsh public authorities to have regard to the policies in the national strategy on soundscapes published under section 25 when exercising any function of a public nature that could affect soundscapes in Wales.
135. Under subsections (2) and (3), a person is a “relevant Welsh public authority” if they have been designated as such by regulations made by the Welsh Ministers.
136. However, the Welsh Ministers may only designate a person as a “relevant Welsh public authority” if they meet the definition of “devolved Welsh Authority” in section 157A(1)(a) of the Government of Wales Act 2006. This means a person can only be designated if they are a public authority (i) whose functions are exercisable only in relation to Wales, and (ii) are wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters. Public authority is defined in section 157(A)(8) of the Government of Wales Act 2006 as “a body, office or holder of an office that has functions of a public nature”.
137. Subsection (4) provides that before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult the person who is proposed to be designated as a “relevant Welsh public authority” and such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.

Section 27 – Power to change cycles for making strategic noise maps and reviewing noise action plans

138. This section enables the Welsh Ministers, by regulations, to change the intervals at which strategic noise maps must be made and adopted under regulation 7(2) of the Environmental Noise (Wales) Regulations 2006 and to change the period within which reviews of noise action plans under regulation 17(3)(b) of those Regulations must take place.

Rhan 3 - Cyffredinol

Adran 28 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

139. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliannol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed y maent yn meddwl ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani, gan gynnwys mewn perthynas â'r darpariaethau a geir yn y Ddeddf hon.

Adran 29 – Rheoliadau

140. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w harfer ac yn nodi'r weithdrefn gymwys i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

Adran 30 – Dod i rym

141. Mae'r adran hon yn nodi sut y mae darpariaethau'r Ddeddf hon yn dod i rym. Daw'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw adrannau 1-6, 8-10, 12-15, 22-27 ac Atodlen 2 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw darpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru.

Adran 31 – Enw byr

142. Enw byr y Ddeddf hon yw Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

143. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

[Deddf yr Amgylchedd \(Ansawdd Aer a Seinweddau\) \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	20 Mawrth 2023
Cam 1 - Dadl	12 Medi 2023
Cam 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	11 Hydref 2023
Cam 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	21 Tachwedd 2023
Cam 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	28 Tachwedd 2023
Y Cydsyniad Brenhinol	14 Chwefror 2024

Part 3 - General

Section 28 – Power to make consequential, transitional etc. provision

139. This section provides that the Welsh Ministers may, by regulations, make such supplementary, incidental, consequential, transitional or saving provision as they think necessary or appropriate for the purpose of giving full effect to any provision made by or under this Act, including in relation to the provisions contained in this Act.

Section 29 – Regulations

140. This section explains how powers to make regulations under this Act are to be exercised and sets out the applicable procedure to be followed in making those regulations.

Section 30 – Coming into force

141. This section sets out how the provisions of this Act come into force. The provisions within Part 3 of the Act come into force on the day after the Act receives Royal Assent. Sections 1-6, 8-10, 12-15, 22-27 and Schedule 2, come into force at the end of the period of 2 months beginning with the day on which the Act receives Royal Assent. The other provisions of the Act come into force on a day appointed by the Welsh Ministers.

Section 31 – Short title

142. The short title of this Act is the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

143. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:

[The Environment \(Air Quality and Soundscapes\) \(Wales\) Bill \(senedd.wales\)](#)

Stage	Date
Introduced	20 March 2023
Stage 1 - Debate	12 September 2023
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	11 October 2023
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	21 November 2023
Stage 4 Approved by the Senedd	28 November 2023
Royal Assent	14 February 2024



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail

TSO


PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11974-9



9 780348 119749